

Atodiad F – Adroddiad Blynyddol

At Weinidogion Cymru,

Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 – Dyletswyddau Adrodd

Yn unol â'r dyletswyddau o dan Adran 7 (3) a 10 (2) o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, fe welwch isod adroddiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer 2022 - 2023.

<p>Y camau a gymerwyd i hyrwyddo'r defnydd o lwybrau teithio llesol.</p>	<p>Yn ystod 2022 - 2023, mae'r Cyngor wedi cymryd rhan yn y gweithgareddau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">• Gweithredu rhaglen barhaus o waith i adnewyddu/gwella rhannau o droedffyrdd ledled y Fwrdeistref Sirol gan gynnwys gosod wynebau newydd, darparu ymylon palmant isel, rheiliau newydd a gwaith lledaenu.• Ymgymryd â'r gwaith o ddileu rhwystrau, mewn lleoliadau dethol ac ar sail achos wrth achos, yn dilyn asesiad o feini prawf ym mhob lleoliad.• Parhau i gymryd rhan mewn mentrau i hyrwyddo Rhondda Cynon Taf fel cyrchfan ar gyfer cerdded a beicio.• Parhau i gymryd rhan yn y Rhaglen Teithiau Iach (mewn Ysgolion). Wedi'i threfnu ar y cyd â Sustrans.• Sicrhau bod tudalennau gwefan y Cyngor ar deithio llesol yn cael eu diweddarau.• Parhau â'r cynllun Beicio i'r Gwaith ar y cyd â Halfords yn rhan o'i Gynllun Buddion ar gyfer Staff.
--	---

	<ul style="list-style-type: none"> • Darparu hyfforddiant beicio o Safonau Cenedlaethol i 670 o ddisgyblion yn 2022 - 2023 drwy roi'r hyfforddiant angenrheidiol i feicwyr ifainc er mwyn iddyn nhw fod yn fwy diogel a mwy cymwys. • Darparu hyfforddiant Kerbcraft/Cerddwyr Ifainc i 1,222 o ddisgyblion yn 2022 - 2023 i roi sgiliau ac ymwybyddiaeth o faterion diogelwch ar y ffordd i ddisgyblion ifainc er mwyn iddyn nhw fod yn gerddwyr mwy diogel. • Dechreuwyd Cam 4 o waith adfer mawr yng Nghwm Rhondda Fach yn dilyn tirlithriad mawr ger Tylorstown a gaeodd lwybr teithio llesol allweddol ar ôl Storm Dennis. Bydd cwblhau'r gwaith yn galluogi ailagor y llwybr teithio llesol yma'n llawn. • Cynnal ymarfer ymgynghori ar-lein mewn cysylltiad â chynllun arfaethedig i adlinio llwybr Taith Taf yn ardal Trallwn, Pontypridd.
<p>Y camau a gymerwyd i sicrhau llwybrau teithio llesol newydd a chyfleusterau a gwelliannau cysylltiedig</p>	<p>Mae'r wybodaeth ganlynol yn cyfeirio at 2022 - 2023.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Datblygu astudiaethau i ymchwilio i'r gwaith cydweddu ac adeiladu sy'n bosibl o ran llwybrau teithio llesol newydd yng nghanol tref Aberdâr ac i/o'r cymunedau cyfagos. Hefyd gosodwyd nifer o gyfleusterau storio beiciau yng nghanol trefi Aberdâr, Pontypridd a'r Porth. Bydd teithio llesol yn chwarae rhan allweddol yn natblygiad Cynlluniau Creu Lleoedd y Cyngor ar gyfer canol ei brif

	<p>drefi. Mae'r cynlluniau yma'n cynnwys gwell cysylltedd i gyfleusterau, pyrth ac ardaloedd pwysig.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ar y cyd â sefydliadau partner, mae achosion busnes ar waith ar gyfer ailagor y twneli rheilffordd segur rhwng Cwm Rhondda Fawr a Chwm Gwynfi i gerddwyr a beicwyr. • Cyflwyno rhagor o gynlluniau 'Llwybrau Diogel mewn Cymunedau' i ysgol gynradd leol (Maes-y-bryn) yn Llanilltud Faerdref. • Gwneud nifer o welliannau i'r briffordd sydd o fudd i feicwyr (yn ogystal â gyrwyr), megis gwaith trin wyneb y ffordd mewn gwahanol leoliadau ledled Rhondda Cynon Taf, adeiladu lonydd newydd ar gyffyrdd allweddol, adnewyddu goleuadau traffig ac atgyweirio gwaith maen i bontydd afonydd a waliau cynnal. • Gweithredu nifer o welliannau i lwybrau troed, pontydd troed, waliau cynnal a manau croesi i wella diogelwch i gerddwyr.
<p>Y costau sydd ynghlwm â llwybrau a chyfleusterau teithio llesol newydd a gwelliannau i lwybrau teithio llesol presennol a chyfleusterau cysylltiedig a gynhaliwyd yn y flwyddyn ariannol lawn flaenorol</p>	<p>Dyma'r prif waith a chostau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • £565,331 – cam cyntaf y gwaith atgyweirio i Bont Dramffordd Gelli Isaf, ger Trecynon a ddefnyddir gan gerddwyr sy'n dod oddi ar lwybr teithio llesol Llwybr Cynon. • £319,790 – darparu gwelliannau amrywiol i gynorthwyo cerddwyr ar hyd Ffordd Llantrisant a Phantybrad, Tonyrefail. Roedd y gwaith yn cynnwys darparu

	<p>mannau croesi is, uwchraddio goleuadau stryd a chroesfan newydd i gerddwyr.</p> <ul style="list-style-type: none">• £297,000 – dechrau gwaith fesul cam i ymestyn y llwybr teithio llesol ar hyd Cwm Rhondda Fach i'r Maerdy.• £58,000 – ar gyfer symud gwaith ar gam nesaf rhan o lwybr teithio llesol newydd yn Nhreorci yn ei flaen. Yn y pen draw, bydd hwn yn rhan o lwybr teithio llesol pellter hir newydd ar hyd Cwm Rhondda Fawr, rhwng Porth a cheg yr hen dwnnel rheilffordd ym Mlaencwm.• £3.699 miliwn – dymchwel y bont droed bresennol ar draws yr afon a'r rheilffordd yn Stryd y Nant, Ystrad Rhondda, fesul cam ac adeiladu pont newydd yn ei lle.• £887,000 – gwaith gwella / adnewyddu i'r llwybrau troed yn Rhondda Cynon Taf. Cafodd cyfanswm o 51 o gynlluniau eu cyflawni. Gwelliannau i fynediad ar gyfer pobl anabl a cherddwyr a gynlluniau gwella llwybrau troed eu cynnal, sef cyfanswm buddsoddiad.• £1.05 miliwn – comisiynu astudiaethau, gwneud gwelliannau a bwrw ymlaen â chymau nesaf nifer o gynlluniau teithio llesol arfaethedig.• £454,800 – cwblhau Cynllun Llwybrau Diogel mewn Cymunedau ym Mryn y Goron, Llanilltud Faerdref.
--	---

Yn ogystal â'r uchod, mae'r wybodaeth ganlynol yn rhoi trosolwg o'r isadeiledd sydd wedi'i roi ar waith yn ystod y flwyddyn flaenorol:

<p>Gwariant dangosol ar gyfer llwybrau a chyfleusterau teithio llesol newydd a gwelliannau i lwybrau teithio llesol presennol a chyfleusterau cysylltiedig wedi'u hariannu'n gyfan gwbl neu'n rhannol gan drydydd parti.</p>	<p>Lle bo modd, mae'r Cyngor yn ceisio cael cyfraniadau gan ddatblygwyr, yn rhan o Gytundeb A106, i ariannu gwelliannau i gyfleusterau teithio llesol yng nghyffiniau eu datblygiad newydd.</p>
<p>Hyd y llwybrau newydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Cerdded - Beicio - Mannau i Bawb 	<p>Cerdded (llwybrau newydd) 0.06 cilomedr Beicio (lonydd ar yr heol) 0.0 cilomedr Defnydd a Rennir 0.0 cilomedr</p>
<p>Hyd y llwybrau sydd wedi'u gwella:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Cerdded - Beicio - Mannau i Bawb 	<p>Cerdded (llwybrau gwell) tua 5.4 cilomedr Beicio (lonydd ar yr heol) 0.0 cilomedr Mannau i Bawb tua 2.8 cilomedr</p>
<p>Cyfleusterau teithio llesol newydd a gwell</p>	<p>Agor cyfleuster Traciau a Llwybrau newydd, gyda seilwaith cysylltiedig, ym Mharc Gwledig Cwm Dâr, Aberdâr.</p> <p>Darparu cyfleusterau gwell yn Ysgol Gynradd Ffynnon Taf, Ffynnon Taf ac Ysgol Gyfun Rhydywaun ym Mhen-y-waun. Mae'r cyfleusterau yma'n cynnwys manau storio beiciau newydd neu ychwanegol.</p>

Gwybodaeth ychwanegol (dewisol):


Dechreuodd y Cyngor weithredu ei bolisi a strategaeth ar gyfer cyflwyno pwyntiau ailwefru cyhoeddus ar gyfer ceir trydan ledled Rhondda Cynon Taf. Gosodwyd y pwyntiau ailwefru yma mewn 31 o safleoedd i ddechrau, ac yna 26 o safleoedd eraill yn rhan o Gam 2.

Mae'r Cyngor wedi parhau i gydweithio'n agos â Thrafnidiaeth Cymru mewn perthynas â'i raglen i gynyddu nifer y manau parcio ar gyfer beicwyr mewn gorsafoedd rheilffordd ym mhob rhan o'r rhwydwaith.

Cynhaliodd y Cyngor baratodau mewn cysylltiad â'r cynllun i gyflwyno terfyn cyflymder 20mya rhagosodedig Llywodraeth Cymru yn ystod hydref 2023.

Rydw i'n cadarnhau y bydd yr adroddiad yma'n cael ei gyhoeddi ar-lein, yn unol â Chanllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol (fersiwn 2021).

Llofnod y Prif Weithredwr:



Enw'r Prif Weithredwr:

PAUL MEE

Dyddiad cyflwyno i Weinidogion Cymru:

12 Hydref 2023